**CYFARFOD COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU (CDFfC)**
**A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 26 MAWRTH 2025 YN CP2 a thrwy Teams**

**Yn bresennol:** Michael Imperato (Dirprwy Gadeirydd), Dianne Bevan, Frank Cuthbert, Ginger Wiegand, Bethan Williams Price, Karen Jones.

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Prif Weithredwr; Pennaeth Arolygon; Pennaeth Iechyd Democrataidd; Rheolwr Cyllid; Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd; Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu; Swyddog Polisi Iechyd Democrataidd

**Gwesteion:** Frances Duffy (IRP)

**Ymddiheuriadau:** Bev Smith (Cadeirydd)

**Amser Dechrau: 10:02**
**Amser Gorffen: 11:45**

**1. Datganiadau Buddiannau**

**1.1.** Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

**2. Briff gan y Cadeirydd**

**2.1.** Darparwyd briff y Cadeirydd gan y Prif Weithredwr. Llongyfarchodd y Cadeirydd y Comisiwn ar gyhoeddi ffiniau'r Senedd yn gynnar a **nododd** y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol yn diolch i'r Comisiwn yn bersonol am gyflwyno'r arolwg cyn pryd. **Nodwyd** bod hyn wedi cynorthwyo cydweithwyr yn nhîm Diwygio'r Senedd â'u paratoadau oherwydd bydd angen i Ysgrifennydd y Cabinet osod Gorchymyn o fewn 14 wythnos.

**2.2.** Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Comisiwn wedi cael 2 neges e-bost negyddol ynglŷn ag enwau lleoedd uniaith Gymraeg ers cyhoeddi Adroddiad Penderfyniadau Terfynol y Senedd ar 11 Mawrth.

**2.3.** Dywedodd y Prif Weithredwr fod dau Gomisiynydd a dau aelod o'r ysgrifenyddiaeth wedi mynychu'r cyfarfod rhyng-gomisiwn yn Llundain fis diwethaf. **Nodwyd** y bydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) yn cynnal cyfarfod rhyng-gomisiwn y flwyddyn nesaf.

**2.4.** Rhoddodd Karen Jones ddiweddariad ar y Fforwm Cadeiryddion Cyhoeddus a fynychodd yn ddiweddar a **nododd** y bu dau brif bwynt trafod, sef tegwch ac

annog yr agenda amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant. Y pwynt trafod cyntaf oedd cydnabyddiaeth ariannol cadeiryddion ac aelodau bwrdd, a'r ail bwynt trafod oedd y cynllun gwrth-hiliaeth.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 26 Chwefror**

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2025 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**3.2.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2025 yn amodol ar y diwygiadau a wnaed. **Penderfynwyd** hefyd gymeradwyo'r Safonau Gwneud Penderfyniadau cyfatebol ar gyfer Penderfyniadau Arolwg Senedd 2026, fel y trafodwyd ac y **cytunwyd** yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2025.

**4. Materion sy'n Codi**

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 1) Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cael 1 cais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 20 Chwefror 2025 a 19 Mawrth 2025.

**4.3.** **(Mater 2) Nodwyd**, yn dilyn cyfweliadau a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2025, bod Andrew Blackmore wedi'i benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae hyn wedi arwain at swydd wag ar gyfer Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Hysbysebir y swydd hon gyda'r dyddiad cau 21 Ebrill 2025.

**4.4.** **(Mater 3)** Rhoddwyd ystyriaeth i Fater 3. **Nodwyd** bod y Pwyllgor wedi gwneud 11 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys un sy'n enwi'r Comisiwn yn benodol. **Nodwyd** bod yr argymhelliad hwn eisoes wedi cael ei weithredu gyda Llywodraeth Cymru a bod y Comisiwn wedi gofyn iddo gael ei gynnwys yn llythyr cylch gwaith 25-26.

**4.5.** **(Mater 4) Nodwyd** bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol wedi anfon llythyr at y Comisiwn yn diolch i'r Comisiynwyr a'r staff am gwblhau Arolwg y Senedd yn llwyddiannus a'i gyflwyno cyn y dyddiad cau. Bydd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet ar 2 Ebrill 2025

**5. Y Bwrdd Rheoli Etholiadol**

**5.1.** Rhoddwyd y diweddariad ar eitem 5 ar lafar.

**5.2.** **Nodwyd** bod yr holl aelodau a wahoddwyd wedi derbyn eu gwahoddiad i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol, heblaw am un, y bydd Karen Jones a'r Pennaeth Iechyd Democrataidd yn cyfarfod ag ef yfory. **Nodwyd** a **chytunwyd**, pe byddai'r unigolyn hwn yn gwrthod ei le, y dylid amlygu penodai arall o'r un rhanbarth er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gyfartal ledled Cymru.

**5.3.** **Nodwyd** bod aelodau'r ysgrifenyddiaeth wedi cyfarfod â Jorren Knibbe yn ddiweddar, sef cynghorydd cyfreithiol allanol y Comisiwn. Nodwyd bod Jorren wedi cynghori yn erbyn defnyddio 'cylch gwaith' ar gyfer y Bwrdd Rheoli Etholiadol newydd ei ffurfio ac, yn lle hynny, cynghorodd y dylid defnyddio dwy ddogfen ar wahân; sef 'Canllaw i rôl y Bwrdd' a dogfen 'Rheolau gweithdrefnau'.

**5.4.** **Nodwyd** y bydd y gweithgor nesaf ar gyfer y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP) yn cyfarfod yr wythnos nesaf. **Nodwyd** y bydd y Prif Weithredwr yn ymgymryd â rôl y Cadeirydd.

**5.5.** **Nodwyd** bod yr ysgrifenyddiaeth wedi bod yn ceisio cyngor allanol ar gaffael yr WEIP a'i bod yn dymuno cael cymorth arbenigwr caffael cyhoeddus. Mae asiantaeth berthnasol wedi'i nodi, ac mae'r Prif Weithredwr yn disgwyl derbyn CV gan 3 darpar ymgeisydd. Trafodwyd cost yr arbenigwr caffael, a **nodwyd** y cadarnhawyd bod hyn yn debyg i gost ddyddiol Sarah Ling, sydd eisoes yn ymgynghori ar yr WEIP. **Nodwyd** bod digon o gyllideb eisoes wedi cael ei dyrannu i gyflogi'r arbenigwr caffael am gyfanswm o 20 niwrnod hyd at fis Hydref. **Nodwyd** y bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod fis nesaf, sydd wedi cael ei gynllunio fel diwrnod strategaeth.

**5.6.** Trafodwyd y gweithgor WEIP a'r posibilrwydd o'i droi'n grŵp gorchwyl a gorffen. Yn ogystal, trafodwyd creu Bwrdd Prosiect gyda Rheolwr Prosiect a Noddwr Prosiect. **Nodwyd** y byddai amlygu Rheolwr Prosiect yn arwain at fwy o atebolrwydd. Trafodwyd amlygu Rheolwr Prosiect ar gyfer y Bwrdd Prosiect.

## 6. Adroddiad Etifeddiaeth IRPW

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Etifeddiaeth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW), dyddiedig 19 Mawrth 2025, gan yr Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd.

**6.2.** **Nodwyd** y bydd swyddogaethau cydnabyddiaeth ariannol yn cael eu trosglwyddo o IRPW i CDFfC ar 1 Ebrill 2025.

**6.3.** **Nodwyd** cyflwyno taliadau parasiwt ar gyfer cynghorwyr nad ydynt yn cael eu hailethol.

**6.4.** **Nodwyd** yr adroddiad, ac fe'i hystyrir ymhellach gan yr Is-bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ei gyfarfod cychwynnol ar 15 Ebrill 2025.

**7. Adroddiad Monitro'r Gyllideb 2024-25**

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Monitro'r Gyllideb, dyddiedig 26 Mawrth 2025, gan y Rheolwr Cyllid.

**7.2.** **Nodwyd** bod cronfeydd wedi cael eu trosglwyddo rhwng dyraniadau cyllideb i fynd i'r afael â thanwariant a gorwariant. **Nodwyd** nad yw newidiadau o'r fath i'r gyllideb yn anarferol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**7.3.** **Nodwyd** y prif feysydd tanwariant a gorwariant, a'r esboniadau drostynt.

**7.4.** **Nodwyd** bod tanwariant disgwyliedig o £24,000 ar hyn o bryd ond y disgwylir iddo ostwng o dan £20,000 yn ystod yr ychydig ddiwrnodau nesaf, a fyddai'n golygu y bydd o dan y trothwy £20k i'w gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf.

**7.5.** Trafodwyd y cynnydd yn nyraniad y gyllideb gyfreithiol. **Nodwyd** bod categori'r gyllideb ar gyfer costau cyfreithiol hefyd yn cynnwys costau ymgynghoriaeth ar gyfer gwaith ar y WEIP.

**8. Rheoli Risg**

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Rheoli Risg CDFfC dyddiedig 26 Mawrth 2025.

**8.2.** **Nodwyd** bod yr aelodau wedi cytuno, yng nghyfarfod y Comisiwn ar 26 Chwefror, nad oes angen unrhyw newidiadau ychwanegol i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ar hyn o bryd.

**8.3.** **Cytunwyd** ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol bresennol.

**8.4.** **Nodwyd** y disgwylir newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yng nghyfarfod fis nesaf.

**9. Polisi Rheoli Risg**

**9.1.** **Nodwyd** bod eitem rhif 9 Polisi Rheoli Risg wedi cael ei symud i agenda'r cyfarfod ar gyfer cyfarfod mis Mai.

**10. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2025.**

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2025, dyddiedig 26 Mawrth 2025.

**10.2.** **Nodwyd** na ellid trosglwyddo o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg oherwydd amseriad penodi Cadeirydd newydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**10.3.** **Nodwyd** bod yr adroddiadau archwilio mewnol diwedd blwyddyn a'r adroddiadau blynyddol yn dda iawn, gyda sgorau archwilio sylweddol yn yr adroddiadau archwilio diwedd blwyddyn.

**10.4.** **Nodwyd** yr Adroddiad.

**11. Datganiad Llywodraethu CDFfC 2024-25**

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Ddatganiad Llywodraethu CDFfC dyddiedig 26 Mawrth 2025.

**11.2.** **Nodwyd** bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi gweld y datganiad hwn gyntaf ym mis Mawrth ac wedi argymell ei gyflwyno i'r Bwrdd.

**11.3.** Trafodwyd iaith adran 4. Rheoli Risg. **Cytunwyd** i wneud rhai diwygiadau i eiriad yr adran hon o'r Datganiad.

**11.4.** **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid i wneud diwygiadau i Adran 4 Datganiad Llywodraethu CDFfC 2024-25.

**12. Adroddiad Cynnydd Arolygon**

**12.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cynnydd Arolygon dyddiedig 18 Mawrth 2025 gan y Pennaeth Arolygon.

**12.2.** **Nodwyd** bod arolwg Sir Gaerfyrddin wedi cael ei gwblhau gan Gyngor Sir Caerfyrddin a bod y Comisiwn wedi cytuno ar yr argymhellion. **Nodwyd** bod y papur cyfreithiol ynglŷn â'r arolwg hwn wedi cael ei lunio gan gynghorydd cyfreithiol y Comisiwn ac wedi cael ei ddosbarthu i'r bwrdd. **Nodwyd** bod y cynghorydd cyfreithiol yn gweithio ar lunio'r Gorchymyn a gyhoeddir gan y Comisiwn.

**12.3.** **Nodwyd** bod arolwg Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei gynnal gan y cyngor ar hyn o bryd. Cyhoeddwyd Cynigion Drafft ym mis Ionawr ac mae'r ymgynghoriad yn parhau tan fis Ebrill. Mae'r Comisiwn yn disgwyl derbyn yr argymhellion terfynol yn yr Hydref/y Gaeaf 2025.

**12.4.** **Nodwyd** bod Arolwg Cymunedol Rhondda Cynon Taf yn cael ei gynnal gan y cyngor ar hyn o bryd. Mae'r Comisiwn yn disgwyl derbyn yr argymhellion terfynol yn y Gwanwyn/yr Haf 2025.

**12.5.** **Nodwyd** bod Arolwg Cymunedol Torfaen yn cael ei gynnal gan y cyngor ar hyn o bryd. Mae'r Comisiwn yn disgwyl derbyn yr argymhellion terfynol yn y Gwanwyn/yr Haf 2025.

**12.6.** **Nodwyd** bod Wrecsam a Sir Ddinbych yn bwriadu cwblhau eu harolygon cymunedol eu hunain.

**12.7.** **Nodwyd** bod y cyfnod ymgynghori ar bolisi ac ymarfer ar gyfer Rhaglen Arolygon Etholiadol 2025 wedi dod i ben ddydd Llun 24 Mawrth, a bod y Comisiwn wedi cael 10 ymateb. **Nodwyd** y bydd y polisi wedi'i ddiweddaru yn cael ei ddosbarthu gan y Pennaeth Arolygon yr wythnos nesaf.

**12.8.** **Nodwyd** bod y penderfyniadau ar gyfer arolygon cymunedol wedi cael eu hoedi a bod y Comisiwn yn disgwyl eu derbyn yn gynnar ym mis Ebrill. **Nodwyd** na all y Comisiwn gychwyn y Rhaglen Arolygon Etholiadol yn swyddogol cyn i benderfyniad gael ei wneud gan Ysgrifennydd y Cabinet. **Nodwyd** tra bod y Comisiwn yn aros am y Gorchmynion hyn, bod y tîm arolygon yn paratoi'r data sylfaenol ar gyfer y Rhaglen Arolygon Etholiadol, a'u bod eisoes wedi derbyn ffigurau ar gyfer nifer yr etholwyr a nifer ragamcanol yr etholwyr gan Fro Morgannwg.

**12.9.** **Nodwyd** y bydd y Comisiwn yn cwblhau 6 Rhaglen Arolwg Etholiadol o ganlyniad i ychwanegu Sir Gaerfyrddin.

**12.10.** Trafodwyd dyrannu comisiynwyr i'r Rhaglenni Arolygon Etholiadol. **Nodwyd** y byddai'n fuddiol dyrannu'r comisiynwyr a gwblhaodd arolygon cymunedol i'r arolygon cyfatebol yn y Rhaglen Arolygon Etholiadol. **Nodwyd** y byddai angen dyrannu comisiynydd i Raglen Arolwg Etholiadol Sir Gaerfyrddin, gan nad oedd y Comisiwn wedi cwblhau'r arolwg cymunedol ar gyfer yr ardal hon.

**13. Calendr Digwyddiadau**

**13.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Calendr Digwyddiadau a **chytunwyd** arno.

**14. Unrhyw Fater Arall Perthnasol – Cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol**

**14.1** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem rhif 14 (a) – Cynllun cyfathrebu misol.

**14.1.** **Nodwyd** y bydd y Strategaeth Gyfathrebu'n cael ei chyflwyno ym mis Medi i ganiatáu ar gyfer pontio i'r Is-bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a'r Bwrdd Rheoli Etholiadol.

**14.2.** **Nodwyd** y bydd y Comisiwn yn derbyn y fideo wedi'i animeiddio ar swyddogaethau'r Is-bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol newydd fis nesaf a'r fideo sy'n hyrwyddo'r Bwrdd Rheoli Etholiadol ym mis Mai. **Cytunwyd** y bydd y fideos hyn yn cael eu dosbarthu i'r comisiynwyr pan fyddant yn barod.

**14.3.** **Nodwyd** bod rhywfaint o waith yn parhau ar y wefan a ddylai fod yn barod rywbryd ym mis Ebrill. Fe ddylai'r wefan fod yn haws ei llywio o ganlyniad i hyn. Nodwyd hefyd fod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i adolygu hygyrchedd y wefan, a allai arwain at ragor o newidiadau, os bydd angen.

**14.4.** **Nodwyd** y bydd gwaith hysbysebu ar gyfer y Rhaglen Arolygon Etholiadol yn dechrau cyn hir.

**14.5.** Rhoddodd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu wybodaeth am y Grŵp Cyfathrebu y mae'n aelod ohono ynghyd â staff cyfathrebu o'r Senedd, Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadol, gyda phwyslais ar etholiadau'r Senedd yn 2026. Dywedodd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu mai ei rôl yn y cyfarfodydd hyn yw diweddaru cydweithwyr ar waith perthnasol y Comisiwn. **Nodwyd** y bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal bob deufis yn hytrach na phob tri mis bellach, ac y bydd SharePoint yn cael ei sefydlu fel y bydd yr holl gyrff a noddir yn ymwybodol o'u gwaith ei gilydd ac i sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu na'i wrth-ddweud.

**14.6.** **Nodwyd** y bydd yr is-grŵp cyfathrebu'n cael ei ailsefydlu o dan y Bwrdd Rheoli Etholiadol. **Nodwyd** hefyd fod y Prif Weithredwr a Karen Jones (KJ) wedi mynychu cyfarfod y Bwrdd Cyflawni ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn ddiweddar, sef bwrdd a rennir gan Lywodraeth Cymru sydd wedi bod yn goruchwylio'r broses o gyflawni'r ddeddfwriaeth.

**14.7.** **Nodwyd** bod KJ wedi trefnu cyfarfod â Llywodraeth Cymru ar ôl y cyfarfod am y Bwrdd Rheoli Etholiadol i drafod ac egluro rolau Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Etholiadol a'r Bwrdd Rheoli Etholiadol wrth symud ymlaen.

**14.8.** Trafodwyd sut mae'r Bwrdd Rheoli Etholiadol yn bwriadu cyrraedd gwahanol gynulleidfaoedd a allai fod â gwahanol anghenion cyfathrebu, sy'n cynnwys hygyrchedd y wefan a lledaenu gwybodaeth hollbwysig. **Nodwyd** yr angen i ystyried anghenion hygyrchedd o'r cychwyn cyntaf a sicrhau y cydymffurfir â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar gyfer y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP).

**14.2** Rhoddwyd ystyriaeth i eitem rhif 14 (b) – Cyfryngau cymdeithasol

**14.2.1.** Trafodwyd y papur. **Nodwyd** mai X yw cyfrif cyfryngau cymdeithasol mwyaf llwyddiannus CDFfC. **Nodwyd** nad oes gwybodaeth ar gael am wasgariad daearyddol ymgysylltu â chynnwys CDFfC ar X.

**14.2.2.** **Nodwyd** bod y mater hwn wedi cael ei drafod yng nghyfarfod y grŵp cyfathrebu cyrff cyhoeddus.

**14.2.3.** Trafodwyd cyrhaeddiad CDFfC ar X. **Nodwyd** ei bod yn ymddangos bod y Comisiwn yn cyrraedd y bobl iawn, ond bod y bobl hyn yn ymwneud yn frwd â gwleidyddiaeth yn gyffredinol. **Nodwyd** ei bod yn annhebygol bod pobl yn dysgu am y Comisiwn am y tro cyntaf ar X.

**14.2.4.** Trafodwyd y posibilrwydd o aros ar X a cheisio datblygu dilynwyr yn rhywle arall, gan drafod hyn eto ymhen 6 i 12 mis, a phostio ar X pan fo'n hanfodol yn unig.

**14.2.5.** Trafodwyd dibynadwyedd gwybodaeth a'r angen i fonitro sut mae pobl yn ymgysylltu â gwybodaeth y Comisiwn h.y. sut mae pobl yn ymateb i'r wybodaeth wrth ailbostio.

**14.2.6. Nodwyd** bod LinkedIn yn blatfform arall defnyddiol ar gyfer lledaenu gwybodaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

**14.2.7.** Trafodwyd y posibilrwydd y gallai twyllwybodaeth amharu ar etholiadau'r Senedd a **nodwyd** y gellir trafod hyn yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol.

**14.2.8.** Trafodwyd y posibilrwydd o ymgysylltu ag X mewn ffyrdd newydd, a sut gallai gadael X ar yr adeg hon wrthdaro â gweledigaeth hirdymor y Comisiwn.

**14.2.9. Nodwyd** bod Llywodraeth Cymru yn trafod y pwnc hwn, ond ei bod yn ymatal rhag gadael X oherwydd cyfrifoldebau ymateb i argyfwng.

**14.2.10 Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn aros ar X gan ei fod yn ffordd dda o ledaenu gwybodaeth dechnegol, ond na ddylai'r platfform hwn fod ei brif fodd o ymgysylltu â'r cyhoedd. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn ceisio cynyddu ymgysylltiad ar Threads a Bluesky.

**14.2.11. Nodwyd** y bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu a'r Swyddog Polisi Iechyd Democrataidd yn gweithio ar bresenoldeb cyfryngau cymdeithasol ar safleoedd eraill yn ystod yr wythnosau i ddod.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 30 Ebrill 2025